

PANEL PENODIADAU'R PWYLLGOR SAFONAU

28 Ionawr 2020

Yn bresennol: Y Cynghorwyr Mrs D Clements, K Doolin, P Harries a S Yelland, a Mr D Evans (Aelod Lleyg).

Roedd Mr Michael Kent, y Swyddog Monitro, hefyd yn bresennol yn y cyfarfod mewn rôl ymgynghorol llywodraethu.

(Swyddfa APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 2.00p.m. – 4.00p.m.)

- 1. Penodi Cadeirydd**
PENDERFYNWYD penodi'r Cyngorydd P Harries yn Gadeirydd y cyfarfod.
- 2. Datgelu buddiant**
Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiant.
- 3. Gwahardd y cyhoedd**
PENDERFYNWYD gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod gan fod gwybodaeth eithriedig, fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol, yn cael ei datgelu.
- 4. Penodi Aelodau Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau**
Atgoffwyd y Panel gan y Swyddog Monitro fod dwy swydd wag i Aelodau Annibynnol wasanaethu ar Bwyllgor Safonau Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Roedd chwe ymgeisydd ar y rhestr fer i gael cyfweliad i lenwi'r swyddi gwag hyn, ac roedd tri ymgeisydd yn cael eu cyfweld y diwrnod hwnnw, a thri arall yn cael eu cyfweld ar 11 Chwefror 2020.

Cyfwelwyd y tri ymgeisydd a wahoddwyd y diwrnod hwnnw, gyda'r bwriad o'u hystyried ymhellach ochr yn ochr â'r tri ymgeisydd arall a wahoddwyd i gyfweliad ar y 11 Chwefror 2020.

